Bu'r mis diwethaf yn un eithaf prysur yn hanes yr ysgol. Cawsom y cyfle unwaith yn rhagor i groesawu Mr J. R. Evans, Llanilar i'n plith ac yr oedd y plant wrth eu bodd yn ei gwmni. Buont wrthi'n meimio ac yn actio a chael hwyl arbennig ar y gwaith.

Cafodd côr yr ysgol wahoddiad i ganu yng Nghapel y Tabernacl, Aberystwyth a rhoddodd pob plentyn o'i orau i'r gynulleidfa gref a oedd wedi ymgynnull yno. Yn ôl y gymeradwyaeth a gafwyd yr oedd yr aelodau oll wedi cael boddhad ac yr oedd y plant hwythau wedi mwynhau'r noson yn fawr.

Y nos Fawrth olaf o Fawrth buont yn cymryd rhan yn y gyngerdd yn y Neuadd Fawr. Canu cerdd dant oeddynt y noson honno a Thelynores Mynach yn cyfeilio iddynt. Hyfryd oedd gweld cymaint o'r rhieni'n eu cefnogi.

Bu nifer o aelodau'r adran yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhenglais. Rhaid llongyfarch y parti cyd-adrodd ail-iaith yn arbennig am wneud gwaith mor dda.

Cynhaliwyd Gyrfa Chwilen yn yr ysgol un nos Fawrth a chafwyd llawer iawn o hwyl. Yr oedd y gwragedd wedi trefnu stondin gacennau'n ogystal. Yr oedd tyrfa dda o rieni a phlant yn bresennol a'r noson yng ngofal Mr J. G. Rogerson.

Daeth tymor Miss Lowri Griffiths i ben ar ôl pump wythnos o ymarfer dysgu gennym. Wrth ffarwelio â hi da yw cael croesawu tri disgybl newydd sef Ceris Humphreys, Gwennan Jones a Iestyn Morgan. Mae'r tri bach yn hynod hapus a chartrefol yn ein plith a dymunwn iddynt y gorau.

Ebrill 1981